TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 2 Opsiwn 2.4

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad ........ 1
Nodau'r Canllawiau Addysgu ........ 1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ........ 1
Strwythur y cymhwyster ........ 2
Asesu ........ 3
Crynodeb o'r Asesu Uned 2 ........ 3
Amcanion asesu a phwysoli Uned 2 ........ 3
Trosolwg o Uned 2: Opsiwn 2.4 ........ 4
Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 2.4 ........ 5
Profiadau Dysgu ........ 24
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 25
Geirfa ar gyfer Opsiwn 2.4 ........ 32

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnwyd am y tro cyntaf yn Haf 2028. | 1 |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU  Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned.Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn addysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu Uned 2

**Uned 2: Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd**
***Asesiad di-arholiad ar sgrin:* 3 awr**
**20% o'r cymhwyster**
**80 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd.

**Yr Oesoedd Canol**
**2.1** Genghis Khan tua 1162–tua 1227: astudiaeth achos ar imperialaeth yr oesoedd canol
**2.2** Y Pla Du tua 1330–tua 1360: astudiaeth achos ar gymdeithas yr oesoedd canol

**Modern Cynnar**
**2.3** Concwest Sbaen ar yr Asteciaid tua 1492–tua 1525: astudiaeth achos ar drefedigaethedd fodern gynnar
**2.4** Süleyman I tua 1520–tua 1566: astudiaeth achos ar imperialaeth fodern gynnar

**Modern**
**2.5** Y Drydedd Reich, tua 1933–tua 1945: astudiaeth achos ar genedlaetholdeb modern
**2.6** Afghanistan tua 1979–tua 2001: astudiaeth achos ar gydberthynas fodern y gwledydd

Ar gyfer yr asesiad di-arholiad, bydd dysgwyr yn cynnal ymholiad hanesyddol, gan gynnig ymateb â ffocws ar fater penodol.

Bydd dysgwyr yn cwblhau asesiad Uned 2 yn ddigidol drwy lwyfan e-asesu CBAC.

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 2

| | | |
|---|---|---|
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd. | 5% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan gyfuno'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol. | 5% |
| AA4 | Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol i ymgymryd ag ymholiadau hanesyddol. | 10% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 2: Opsiwn 2.4

**Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd**
(20% o'r cymhwyster)

Pwrpas Uned 2 yw darparu dealltwriaeth fanwl o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd drwy astudio ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

Bydd dysgwyr yn astudio un o chwe thestun hanesyddol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd. Yna byddant yn cynnal ymholiad hanesyddol yn seiliedig ar eu dewis o destun hanesyddol.

Dylai dysgwyr allu dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso wrth fynd i'r afael â ffynonellau sy'n ymwneud â'r testun hanesyddol a ddewiswyd a dehongliadau hanesyddol sy'n cynnwys safbwyntiau cyferbyniol o ran digwyddiadau a phobl.

Dylai dysgwyr hefyd allu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau hanesyddol canlynol yng nghyd-destun eu dewis o destun hanesyddol:
- parhad a newid
- nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol
- arwyddocâd ac effaith
- achos a chanlyniad.

Dylai dysgwyr allu dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio i gynnal ymholiadau hanesyddol, gan gynnwys:
- cael trosolwg o destun penodol
- casglu tystiolaeth i ddatblygu dealltwriaeth o'r hanes a'r dadleuon cysylltiedig
- crynhoi'r pwyntiau a'r dadleuon allweddol
- adolygu gwybodaeth a ffurfio rhagdybiaeth sy'n gysylltiedig â chwestiwn penodol
- dewis, dadansoddi, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth
- cynllunio a llunio ymateb i gwestiwn penodol
- datblygu hunanwerthusiad beirniadol o'u perfformiad yn y dasg.

| Cyfnod amser | Opsiwn | |
|---|---|---|
| Modern Cynnar | 2.4 | Süleyman I tua 1520–tua 1566: astudiaeth achos ar imperialaeth fodern gynnar |
| | 2.4.1 | Sefydlu awdurdod Süleyman |
| | 2.4.2 | Ehangu'r Ymerodraeth Otomanaidd yn Ewrop yn yr 1520au |
| | 2.4.3 | Ehangiad morwrol yr Ymerodraeth Otomanaidd |
| | 2.4.4 | Arwyddocâd crefydd yn yr unfed ganrif ar bymtheg |
| | 2.4.5 | Teyrnasiad a gwaddol Süleyman I |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 2.4

### Modern Cynnar: Süleyman I tua 1520–tua 1566: astudiaeth achos ar imperialaeth fodern gynnar

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

| 2.4 Cefndir: yr Ymerodraeth Otomanaidd a dyfodiad Süleyman<br>(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. **Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol**). | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • natur a graddfa ddaearyddol yr Ymerodraeth Otomanaidd, a'i chydberthynas â'i chymdogion. | Pwysigrwydd yr Ymerodraeth fel pont rhwng Ewrop ac Asia.<br><br>Pwysigrwydd penodol Caergystennin.<br><br>Pam yr oedd y berthynas rhwng yr Otomaniaid a'u cymdogion yn gymhleth (rhaniadau o fewn Islam a'r gred | **Gweithgaredd:**<br>Cyflwyniad: gwyliwch *The Entire History of the Ottoman Empire* (hyd at 5:37). gwnewch nodiadau a thrafodwch.<br><br>Gwyliwch y fideo *Mehmed the Conqueror*. Ac esboniwch sut llwyddodd yr Otomaniaid i gipio Caergystennnin.<br><br>Gwyliwch *The Entire History of the Ottoman Empire* (hyd at 10:22). Gwnewch nodiadau a thrafodwch. | **Map(iau):**<br>Map 1: Map of Europe (Countries and Cities) - GIS Geography<br><br>Map 2: Expansion of the Ottoman Empire after 1450<br><br>Map 3:<br>The Sea of Marmara<br><br>**Fideo(s):**<br>The Entire History of the Ottoman Empire | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | mewn Jihad yn erbyn Cristnogion). | Gan weithio mewn grwpiau, cymharwch a chyferbynnwch y mapiau i archwilio twf yr Ymerodraeth Otomanaidd.<br><br>**Canlyniadau:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall ble yr oedd yr Ymerodraeth Otomanaidd, pam ei bod yn ardal bwysig a nodi cronoleg ei hehangiad.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Nodwch a diffiniwch:<br>• y Môr Du<br>• y Bosfforws<br>• Môr Marmara<br>• y Dardanelles.<br>Yn eich barn chi, pam oedd yr ardaloedd hyn mor arwyddocaol i'r Otomaniaid, i Rwsia ac i diroedd eraill i'r dwyrain o Ewrop?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall arwyddocâd strategol Constantinople. | Mehmed the Conqueror \| Battle of Constantinople \| UHD Edit - YouTube<br><br>**Llyfr(**au)<br>Stiles, A. 1990. *The Ottoman Empire, 1450–1700,* Pennod 1 (gweler: The Internet Archive: Andrina Stiles - Ottomans i gael mynediad am ddim â chyfrif).<br><br>**Podlediad(au):**<br>Süleyman the Magnificent: longest-reigning Ottoman sultan - The Forum | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • rheolau olyniaeth yn yr Ymerodraeth Otomanaidd, a hawl Süleyman i'r swltaniaeth. | Rheolau olyniaeth yn yr Ymerodraeth Otomanaidd.<br><br>Y gred mewn brawdladdiad.<br><br>Tad Süleyman a'i hawl i'r orsedd. | **Gweithgaredd:**<br>Cymharwch a chyferbynnwch reolaeth olyniaeth yn yr Ymerodraeth Otomanaidd â'r rhai sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru, yn Lloegr, ac, yn ddiweddarach, yn y Deyrnas Unedig.<br><br>Gwyliwch y fideo *Why did the Ottoman Sultans Kill their Brothers?* a gwnewch nodiadau. Trafodwch – ydych chi'n meddwl bod y cysyniad o frawdladdiad yn dderbyniol?<br><br>Lluniadwch ddiagram yn dangos y llinell etifeddiaeth rhwng Mehmet II a Süleyman.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut daeth Süleyman yn Swltan ac esbonio sut daeth ei dad Selim I yn Swltan gan ddefnyddio brawdladdiad.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gan ddefnyddio'r erthygl, crynhowch y rhesymau pam yr oedd Selim I yn cael ei adnabod fel Selim "Llym".<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y ffordd y rheolwyd yr Ymerodraeth Otomanaidd cyn olyniaeth Süleyman. | **Fideo(s):**<br>Why did the Ottoman Sultans Kill their Brothers?<br><br>**Gwefannau:**<br>Primogeniture – definition<br><br>Gavelkind – definition<br><br>**Llyfr(**au)<br>Stiles, A. 1990. *The Ottoman Empire, 1450–1700,* Pennod 2.2a, Pennod 3 – Cyflwyniad a 3.1<br><br>**Podlediad:**<br>History in 20: Suleiman the Magnificent<br><br>**Erthygl(au):**<br>History of Ottoman Sultan Selim I: Why was he called "the Grim"? - World History Edu<br><br>Garrote - definition | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.4.1 Sefydlu awdurdod Süleyman | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • rheolaeth Süleyman dros ei ymerodraeth, gan gynnwys:<br>• ei briodoleddau personol, ei arweinyddiaeth, ei ddefnydd o ddirprwyaeth a'i lywodraeth, a'r defnydd o system Timar a'r drefn ffiwdal<br>• rôl ac arwyddocâd Hürrem Sultan. | O ganlyniad i'r ffordd y daeth Süleyman yn Swltan, llwyddodd i reoli mewn ffordd wahanol i'w ragflaenwyr gan gynnwys ei ddefnydd o ddirprwyo a llywodraethu.<br><br>Y defnydd o gaethweision yn rheolaeth Süleyman.<br><br>Defnydd Süleyman o wobrau ar gyfer deiliaid ffyddlon (system Timar).<br><br>Defnydd Süleyman o'r system ffiwdal.<br><br>Rheolaeth Hürrem Sultan a'i harwyddocâd yn gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod. | **Gweithgaredd:**<br>Edrychwch ar y lluniau o Süleyman: Pa argraffiadau sydd gennych ohono?<br><br>Gan weithio mewn grwpiau, edrychwch ar rai o'r disgrifiadau cyfoes o Süleyman (gweler y llyfr gan Stiles).<br><br>Trafodwch: yn eich barn chi, pa luniau sy'n rhoi'r tebygrwydd mwyaf realistig o Süleyman?<br><br>Esboniwch:<br>• y system harem<br>• y gwrthdaro rhwng Mahidevran Hatun a Hürrem Sultan (Roxelana) a chanlyniad y gwrthdaro hwnnw.<br><br>Carwsél: Ymchwiliwch i'r canlynol ac amlinellwch:<br>• y devshirme<br>• system timar (gan gynnwys y sipahis)<br>• rôl yr Uchel Fisir (Vezir)<br>• y Divan.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall cymeriad Süleyman a dylanwad | **Erthygl(au):**<br>Suleiman the Magnificent - World History Encyclopaedia<br><br>Hurrem Sultan as the first haseki of the Ottoman Empire – Women's History Network<br><br>Administrative System of the Ottoman Empire<br><br>Devshirme System \| World History Commons<br><br>Timar - Wikipedia<br><br>Wikipedia - The Grand Vizier<br><br>DİVAN-I HÜMAYUN \| History of Istanbul<br><br>**Delwedd(au):**<br>Melchior Lorck - engrafiad | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Hürrem Sultan. Gallant hefyd ddangos eu bod yn deall amrywiaeth o swyddogion a systemau llywodraethol.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodaeth: heblaw am y Swltan, pa berson neu sefydliad oedd fwyaf arwyddocaol i'r Otomaniaid yn yr 16eg ganrif?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso'r ffordd y cafodd yr Ymerodraeth ei rheoli yn ystod teyrnasiad Süleyman. | Kunst Historisches Museum Wien – paentiad<br><br>**Llyfr(au):**<br>Stiles, A. 1990. *The Ottoman Empire, 1450–1700,* Pennod 3.3a, 4.1, 4.3–4.5<br><br>Murphy, D., Tillbrook, M. a Walsh-Atkins, P. 2000. *Europe 1450–1661,* Pennod 3.1–3.2 | |
| • datblygiad y fyddin o dan Süleyman, gan gynnwys:<br>  • recriwtio, y Janisariaid a phwysigrwydd trethi<br>  • dulliau hyfforddi a hyrwyddo. | Sut adeiladodd Süleyman y fyddin Otomanaidd drwy recriwtio.<br><br>Arwyddocâd y Janisariaid.<br><br>Y defnydd o'r system drethi yn helpu i adeiladu a chynnal y fyddin.<br><br>Sut cafodd y milwyr eu hyfforddi a'u dyrchafu. | **Gweithgaredd:**<br>Edrychwch ar y delweddau o erthygl War History Online a phenderfynwch a yw pob un yn ffynhonnell neu'n ddehongliad. Trafodwch pam rydych yn meddwl hyn.<br><br>Darllenwch nodiadau blaenorol a chwblhewch gwis byr ar derminoleg (e.e. y devshirme, y divan).<br><br>Esboniwch (gan ddefnyddio'r adnoddau, gan gynnwys Stiles):<br>• tarddiad y Janisariaid<br>• sut cafodd unigolion eu hyfforddi<br>• sut gallai unigolion ddod i amlygrwydd<br>• y problemau â'r Janisariaid fel grŵp<br>• eu dylanwad ar y broses o wneud penderfyniadau | **Llyfr(au):**<br>Stiles, A. 1990. *The Ottoman Empire, 1450–1700* Pennod 4.2<br><br>Murphy, D., Tillbrook, M. a Walsh-Atkins, P. 2000. *Europe 1450–1661,* Pennod 3.3<br><br>**Erthygl(au):**<br>The Janissaries - An Elite Ottoman Army Unit Who Became Public Enemy No1 - War History Online<br><br>Ottoman Empire - Suleyman I, Expansion, Legacy - Britannica | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • sut gallent fod yn fygythiad<br>• Sipahis y Llys.<br><br>Gweithgaredd ffynhonnell: defnyddiwch y lluniau ffynhonnell y cytunwyd arnynt yn y dosbarth a'r cyfrifon cyfoes gan Stiles ac, mewn grwpiau, crynhowch nhw a'u defnyddio i esbonio arwyddocâd y Janisariaid.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall strwythur y fyddin Otomanaidd a rôl y Janisariaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gall dysgwyr ateb cwestiwn arwyddocâd ar y pwnc. Er enghraifft: Pa mor arwyddocaol oedd y Janisariaid i lwyddiant y fyddin arfog Otomanaidd?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos dealltwriaeth o arwyddocâd y Janisariaid. | **Fideo(s):**<br>Who were the Janissaries? Elite Troops of the Ottoman Empire<br><br>The Life of a Janissary | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.4.2 Ehangu'r Ymerodraeth Otomanaidd yn Ewrop yn yr 1520au | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • amcanion Süleyman ar ddechrau ei deyrnasiad, gan gynnwys:<br>  • y rhesymau dros goncwest Belgrad yn 1521, ei phroses a'i chanlyniadau<br>  • y rhesymau dros goncwest ynys Rodos (Rhodes) yn 1522, ei phroses a'i chanlyniadau. | Deall nodau Süleyman i ehangu'r Ymerodraeth Otomanaidd.<br><br>Y rhesymau dros dargedu Belgrad, y broses o ymosod ar Belgrad a chanlyniadau'r ymosodiad.<br><br>Y rhesymau dros dargedu Rhodes, y broses o ymosod ar Rhodes a chanlyniad yr ymosodiad. | **Gweithgaredd:**<br>Ar argraffiad o'r map o ddinasoedd Ewrop, dewch o hyd i ddinas Belgrad ac ynys Rodos (Rhodes). Rhowch gylch o'u hamgylch neu ychwanegwch nodyn gludiog.<br><br>Diagram corryn: beth ddigwyddodd yn ystod concwest Belgrad, a pham oedd y ddinas yn bwysig i'r Otomaniaid? (gweler Stiles, 2.4d, Murphy et al, a'r fideo *Master of the World*)<br><br>Llinell Amser: rhowch ddigwyddiadau gwarchae/concwest ynys Rodos yn eu trefn yn gronolegol. (gweler Stiles, 2.4a, Murphy et al, a'r fideo *Master of the World*).<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y rhesymau dros goncwestau Belgrad a Rhodes, y prosesau a'r canlyniadau.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gan ddefnyddio'r amrywiaeth o adnoddau, cymharwch a chyferbynnwch goncwest Süleyman o ddinas Belgrad ac ynys Rodos (Rhodes). | **Fideo(s):**<br>Suleiman the Magnificent - Master of the World<br><br>Conquest of Rhodes (1522): Suleiman the Magnificent #2<br><br>**Erthygl(au):**<br>Süleyman the Magnificent - Origins<br><br>Siege of Rhodes: Summary - Britannica<br><br>The Bloody Siege of Rhodes: The Ottomans & Their Unstoppable Empire - War History Online<br><br>Battles & Conquests Of The Ottoman Empire (1299-1683) - World History Encyclopaedia<br><br>**Map(iau):**<br><br>Map of European cities and key places | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr feithrin eu sgiliau cymharu a chyferbynnu gan ganolbwyntio ar lwyddiant milwrol cychwynnol teyrnasiad Süleyman. | Territorial changes of the Ottoman Empire 1566 - Wikimedia Commons<br><br>**Llyfr(au):**<br>Stiles, A. 1990. *The Ottoman Empire, 1450–1700,* Pennod 2.4a a 2.4d (Belgrad)<br><br>Murphy, D., Tillbrook, M. a Walsh-Atkins, P. 2000. *Europe 1450–1661*, Pennod 3.2 | |
| • datblygiad gweithgareddau Süleyman yn Ewrop, gan gynnwys:<br>• y rhesymau dros Frwydr Mohács yn 1526, ei phroses a'i chanlyniadau<br>• y rhesymau dros Warchae Fienna yn 1529, ei broses a'i ganlyniadau. | Deall nodau Süleyman i barhau i ehangu'r Ymerodraeth Otomanaidd.<br><br>Y rhesymau dros dargedu Mohács, y broses o ymosod ar Mohács a chanlyniadau'r ymosodiad.<br><br>Y rhesymau dros dargedu Fienna, y broses o ymosod ar Fienna a chanlyniad yr ymosodiad. | **Gweithgaredd:**<br>Ar yr allbrint o'r map o ddinasoedd Ewrop, dewch o hyd i Zagreb a lluniadwch saeth yn pwyntio at waelod 'b' a'i labelu'n Mohács. Yna dewch o hyd i Wien (Fienna) a rhowch gylch o'i hamgylch neu ychwanegwch nodyn gludiog.<br><br>Nodwch yr afon sy'n cysylltu Belgrad, Mohács a Wien (Fienna). Afon Donaw (Danube) yw hon, sy'n llifo o Donaueschingen yn yr Almaen i'r Môr Du. Pam y gall hyn fod yn arwyddocaol yn eich barn chi.<br><br>Mewn grwpiau, defnyddiwch erthyglau Britannica fel man dechrau a datblygwch drosolwg o Frwydr Mohács neu Warchae Fienna. Chwiliwch am | **Map(iau):**<br>Map of European cities and key places<br><br>**Fideo(s):**<br>Battle of Mohacs 1526 - Ottoman Wars Documentary<br><br>Battle of Mohacs, 1526: How the Ottomans broke the Hungarian Kingdom - Rhaglen Ddogfen<br><br>Siege of Vienna 1529: Ottoman Wars - Rhaglen Ddogfen | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ffynonellau cyfoes a dehongliadau hanesyddol i gefnogi eich syniadau, yna cyflwynwch eich canfyddiadau i'r grŵp/grwpiau eraill.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall drwy nodi brwydrau, esbonio pam y cafodd yr ardaloedd eu targedu, y broses o ymosod a'r canlyniadau.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwch i'r canlynol a thrafodwch: I ba raddau gwnaeth Shah Persia achub Ewrop rhag ehangiad pellach Otoman?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ystyried arwyddocâd y bygythiad i Ewrop ac ai cryfder Ewrop neu uchelgais tiriogaethol eang yr Otomaniaid a ataliodd ehangiad pellach. | How did the Ottomans Lose the Battle of Vienna? (1683)<br><br>**Erthygl(au):**<br>Battle of Mohacs: Summary - Britannica<br><br>Siege of Vienna (1529): Significance & Description - Britannica<br><br>**Llyfr(au):**<br>Stiles, A. 1990. *The Ottoman* Empire, 1450–1700, Pennod 2.4d (Hwngari a Brwydr Mohács, Fienna, a Hwngari eto)<br><br>Murphy, D., Tillbrook, M. a Walsh-Atkins, P. 2000. *Europe 1450–1661*, Pennod 3.2 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.4.3 Ehangiad morwrol yr Ymerodraeth Otomanaidd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • sut datblygodd ac ehangodd Süleyman y llynges Otomanaidd, gan gynnwys:<br>  • rôl Barbarossa<br>  • arwyddocâd gornestau milwrol allweddol, gan gynnwys: Concwest Tunis, 1534; methiant ymgyrch Algiers, 1541; a Gwarchae Malta, 1565. | Pam oedd y llynges mor bwysig yn ehangiad yr Ymerodraeth Otomanaidd.<br><br>Rôl Barbarossa yn arwain y Llynges ac effaith ei farwolaeth.<br><br>Pam oedd y gornestau morol a nodwyd mor arwyddocaol i ehangiad yr Ymerodraeth Otomanaidd. | **Gweithgaredd:**<br>Ar yr argraffiad o'r map o ddinasoedd Ewrop, dewch o hyd i Tunis, Algiers (nodwch nad ydynt yn Ewrop) a Malta. Rhowch gylch o'u hamgylch neu ychwanegwch nodyn gludiog.<br><br>Rhowch grynodeb byr o Goncwest ynys Rodos a'i arwyddocâd.<br><br>Fel dosbarth, lluniwch ddiagram sy'n amlinellu:<br>• beth oedd Môr-ladron Barbari/Corsairs<br>• pwy oedd Khair ad-Din (Heyreddin), a pham yr oedd yn cael ei alw'n Barbarossa<br>• sut daeth Barbarossa i reoli llynges yr Otomaniaid<br>• pwy oedd yn rhan o Goncwest Tunis, ymgyrch Algiers a gwarchae Malta, beth ddigwyddodd yn ystod y rhain a beth oedd y canlyniadau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall cronoleg gornestau morol allweddol y cyfnod. | **Map(iau):**<br>Map of European cities and key places<br><br>**Erthygl(au):**<br>From Pirate to Admiral: The Tale of Barbarossa - Britannica<br><br>Hayreddin Barbarossa: History & Accomplishments - World History Edu<br><br>Conquest of Tunis (1535) - Wikipedia<br><br>Algiers expedition (1541) - Wikipedia<br><br>Great Siege of Malta - Wikipedia<br><br>Siege of Malta: Summary - Britannica<br><br>The 1541 Algiers Expedition - Warfare History Network | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd uwch:**<br>Gwerthuswch effaith canlyniadau gornestau morol ar yr Ymerodraeth Otomanaidd, gan gynnwys effaith Barbarossa.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddeall arwyddocâd canlyniadau gornestau morol ar y nod i atgyfnerthu ac ehangu'r Ymerodraeth Otomanaidd. | Ottoman rule in the Magrib<br><br>**Fideo(s):**<br>Great Siege of Malta 1565: Ottoman Wars Documentary<br><br>The King of Pirates: Hayreddin Barbarossa<br><br>**Llyfr(au):**<br>**Llyfr(au):**<br>Stiles, A. 1990. *The Ottoman Empire, 1450–1700,* Pennod 2.4b–c<br><br>Murphy, D., Tillbrook, M. a Walsh-Atkins, P. 2000. *Europe 1450–1661,* t.49 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • effaith wleidyddol ac economaidd datblygiad y llynges, gan gynnwys:<br>• perthynas yr Ymerodraeth Otomanaidd â Ffrainc<br>• llwybrau masnach a'r Môr Coch. | Effaith llynges sy'n ehangu ac sy'n llwyddiannus ar bŵer a chyfoeth yr Otomaniaid.<br><br>Cynghrair â Ffrainc i frwydro yn erbyn Sbaen, gelyn y naill a'r llall.<br><br>Y llwybrau masnach cynyddol drwy Fôr y Canoldir.<br><br>Pwysigrwydd cael rheolaeth o'r Môr Coch. | **Gweithgaredd:**<br>Esboniad dan arweiniad yr athro gyda map dysgwyr o ddinasoedd Ewrop a thaflen o bwyntiau allweddol (mae Stiles yn ddefnyddiol yn hyn o beth):<br>• diffiniad o'r Mamluk (rhanbarth o Bengazi i Aleppo)<br>• y diffiniad o Persia a'r llinach Safavid a'u lleoliad<br>• arwyddocâd Rwsia a'r Môr Du<br>• pam yr oedd gan yr Otomaniaid gynghrair â Ffrainc<br>• sut hwyluswyd y rhyngweithio yn yr ardaloedd hyn, a'r buddiannau/problemau economaidd a gwleidyddol a gyflwynwyd ganddynt.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith llynges lwyddiannus ar yr Ymerodraeth Otomanaidd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodaeth: A oedd llynges yr Otomaniaid yn fwy arwyddocaol i lwyddiant milwrol Otomanaidd na'r Janisariaid?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso arwyddocâd cymharol y fyddin a'r llynges yn yr ehangiad Otomanaidd. | **Map(iau):**<br>Map of European cities and key places<br><br>**Erthygl(au):**<br>The decline of the Ottoman Empire, 1566-1807 - Britannica<br><br>The Barbary Coast, England and Ottomans in the Late 16th Century - Gale<br><br>Mamluks under the Ottomans<br><br>Ottoman–Safavid War (1532–1555) - Wikipedia<br><br>**Llyfr(au):**<br>Stiles, A. 1990. *The Ottoman Empire, 1450–1700,* Pennod 2.4e a 4.6–7 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.4.4 Arwyddocâd crefydd yn yr unfed ganrif ar bymtheg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • pam yr oedd crefydd yn achos anghydfod yn Ewrop, gan gynnwys:<br>  • Agwedd Sbaen at Fwslimiaid<br>  • canlyniadau gwleidyddol y mudiadau diwygio crefyddol mewn ardaloedd fel yr Almaen a'r Swistir. | Ymwybyddiaeth o'r rhaniad Cristnogol yn Ewrop i gael cyd-destun.<br><br>Gweithredoedd gwrth-Fwslimaidd Sbaen ac ymateb yr Otomaniaid.<br><br>Effaith diwygiadau Cristnogol yn Ewrop ar yr Ymerodraeth Otomanaidd. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch fap meddwl yn seiliedig ar ffactorau crefyddol gwahanol a arweiniodd at anghydfod yn Ewrop – Protestannaidd a gwrth-Islamaidd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y problemau crefyddol a oedd yn bodoli yn Ewrop.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymarfer testun parhaus: Esboniwch pam yr oedd problemau crefyddol yn Ewrop yn gatalydd ac yn gyfle i'r Otomaniaid ehangu i Ewrop a rhanbarth Môr y Canoldir.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr esbonio'r effaith a gafodd anghydfodau crefyddol yn Ewrop ar yr Ymerodraeth Otomanaidd a'i nodau. | **Fideo(s):**<br>History 101: The Protestant Reformation - National Geographic<br><br>Spain's Forgotton Muslims - The Expulsion of the Moriscos<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Reformation<br><br>The fate of the Moriscos: The last remnants of Islam in Spain after the Reconquista \| Middle East Eye<br><br>North Africa - Political Fragmentation, Islamic Culture, 1250-1500 \| Britannica<br><br>**Llyfr(au):**<br>Murphy, D., Tillbrook, M. a Walsh-Atkins, P. 2000. *Europe 1450*–1661, Pennod 5.2, 5.5, 6.3 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Stiles, A. 1989. *The* Ottoman Empire, Pennod 4.7<br><br>Lapidus, I. 2002. *A History of Islamic Societies 2nd ed*. (2002), tt.253–74 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • y rhesymau dros oddefgarwch crefyddol yn yr Ymerodraeth Otomanaidd, gan gynnwys:<br>• Süleyman yn cefnogi Islam<br>• yr amddiffyniad a roddwyd i Iddewon a Christnogion. | Ymwybyddiaeth o oddefgarwch crefyddol Süleyman tuag at Gristnogion ac Iddewon yn ei Ymerodraeth.<br><br>Cefnogi Islam a'r rhesymau dros oddefgarwch crefyddol ar adeg pan nad oedd hyn yn cael ei ddangos yn Ewrop. | **Gweithgaredd:**<br>Gan ddefnyddio'r diagram gan Stiles (t.78) fel enghraifft, lluniwch siart sy'n dangos strwythur cymdeithasol yr Ymerodraeth Otomanaidd a rôl grwpiau crefyddol o fewn y strwythur cymdeithasol hwnnw. Gan nodi gwaharddiad yr Eglwys Gatholig Rufeinig, trafodwch pam yr oedd yr Ymerodraeth – i raddau – yn goddef mathau gwahanol o ffydd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y rhesymau dros oddefgarwch crefyddol o fewn yr Ymerodraeth Otomanaidd a'r rhesymau dros hyn.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cymharwch a chyferbynnwch y driniaeth o grefydd yn yr Ymerodraeth Otomanaidd a'r driniaeth o grefydd yn Ewrop yn yr 16eg ganrif.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddadansoddi arwyddocâd a graddau goddefgarwch crefyddol yn yr Ymerodraeth Otomanaidd. | **Erthygl(au):**<br>How Did Religion Influence Law in the Ottoman Empire? - The Collector<br><br>Suleyman (1494-1566) Jewish Virtual Library<br><br>Sultan Suleiman The Magnificent: The Ottoman Empire's Greatest Ruler - Discovery<br><br>Britannica.com - social organization<br><br>Millet \| Religious community \| Britannica<br>**Llyfr(au):**<br>Stiles, A. 1990. *The Ottoman Empire, 1450–1700,* Pennod 4.4 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.4.5 Teyrnasiad a gwaddol Süleyman I | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • yr heriau domestig a oedd yn wynebu'r Ymerodraeth Otomanaidd, gan gynnwys:<br>  ◦ effaith newidiadau demograffig, prinder bwyd a chwyddiant<br>  ◦ cost rhyfel, y llywodraeth a'r llys brenhinol. | Gwybodaeth am newid ym mhoblogaethau'r ymerodraeth, prinder bwyd a phroblemau economaidd yn cynnwys chwyddiant a chostau rhyfeloedd, llywodraeth a llys brenhinol.<br><br>Y graddau yr oedd gan Süleyman rôl yn nirywiad yr Ymerodraeth Otomanaidd. | **Gweithgaredd:**<br>Trafodaeth: meddyliwch am goncwestau milwrol yr Ymerodraeth Otomanaidd yn ystod teyrnasiad Süleyman ac ystyriwch y canlynol:<br>• sut effeithiodd y goncwest ar faint y boblogaeth?<br>• beth oedd effeithiau economaidd ymgyrchoedd milwrol arwyddocaol a pharhaus?<br><br>Mewn grwpiau, darllenwch yr erthygl *The decline of the Ottoman Empire* a dewch o hyd i bum rheswm dros ddirywiad yr Ymerodraeth Otomanaidd o ganol y chweched ganrif. Rhestrwch y rhain yn nhrefn arwyddocâd ac esboniwch eich penderfyniadau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall yr heriau a oedd yn wynebu'r Ymerodraeth Otomanaidd yn ystod ac ar ôl teyrnasiad Süleyman I.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodaeth: i ba raddau y dechreuodd y dirywiad Otoman yn ystod teyrnasiad Süleyman I? | **Llyfr(au):**<br>Stiles, A. 1990. *The Ottoman Empire, 1450–1700,* Pennod 4.5–4.6<br><br>Murphy, D., Tillbrook, M. a Walsh-Atkins, P. 2000. *Europe 1450–1661*, Pennod 3.3, 5.5, 6.3<br><br>Lapidus, I. 2002. *A History of Islamic Societies 2nd ed*. (2002), tt.253–74<br><br>**Erthygl(au):**<br><br>[Decline of the Ottoman Empire \| Reasons, Collapse, & Maps \| Britannica] | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso natur ac achosion dirywiad yr Ymerodraeth Otomanaidd a'r graddau mai gwaddol Süleyman oedd y dirywiad hwn. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • pam mae Süleyman yn cael ei ystyried yn rheolwr arwyddocaol, gan gynnwys:<br>• y rhesymau pam mae'n cael ei alw yn Süleyman y deddfroddwr, a beirniadaeth o'r teitl hwnnw<br>• y rhesymau pam mae'n cael ei alw yn Süleyman Ysblennydd, a beirniadaeth o'r teitl hwnnw. | Safbwyntiau croes ar Süleyman fel deddfroddwr ac yn ysblennydd. | **Gweithgaredd:**<br>Rhannwch y dysgwyr yn bedair adran (heb yn wybod iddynt) a rhowch ddogfennau ategol iddynt:<br>• gwybodaeth i ddangos Süleyman fel deddfroddwr<br>• gwybodaeth sy'n gwrthbwyso Süleyman fel deddfroddwr<br>• gwybodaeth i ddangos bod Süleyman yn ysblennydd<br>• gwybodaeth sy'n gwrthbwyso bod Süleyman yn ysblennydd.<br><br>Bydd dysgwyr yn coladu'r wybodaeth a roddwyd iddynt i lunio eu casgliadau eu hunain (dylai'r rhain ddangos tuedd tuag at un farn neu'r llall). Yna bydd dysgwyr yn dadlau ynghylch beth ddylai teitl Süleyman fod. Yna bydd dysgwyr yn cyfnewid gwybodaeth â'r safbwyntiau croes i gael barn wrthrychol ar Süleyman.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pam yr oedd Sülleyman yn cael ei adnabod fel deddfroddwr a pham yr oedd yn cael ei adnabod yn ysblennydd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Rhowch grynodeb ysgrifenedig ar y termau deddfroddwr ac ysblennydd, | **Erthygl(au):**<br>Süleyman I - Encyclopedia.com<br><br>Why we should remember the reign of Suleiman the Magnificent? - History Extra<br><br>What Was So Magnificent About Suleiman the Magnificent? - The Collector<br><br>3 Successes and 3 Failures of the Reign of Suleiman the Magnificent - History Collection<br><br>Sultan Suleiman The Magnificent: The Ottoman Empire's Greatest Ruler - Discovery<br><br>**Fideo(s):**<br>How did Suleiman The Magnificent create a World Superpower? | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gyda chasgliad ar y defnydd o'r ddau deitl.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio barn a gefnogir am y teitlau a roddwyd i Süleyman. | **Llyfr(au):**<br>Stiles, A. 1989. *The Ottoman Empire* Pennod, 2.4, 3.3b–c | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y pwnc ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| Gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol wrth gwblhau'r cymhwyster, er enghraifft drwy gyrchu deunydd ffynhonnell hanesyddol yn ddigidol | Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr gael mynediad i archifau ar-lein o bob cwr o'r byd. Bydd hyn yn eu galluogi i gael gafael ar amrywiaeth o ddeunyddiau ffynhonnell hanesyddol fel llythyrau, dyddiaduron neu ddogfennau'r llywodraeth.<br><br>Gall dysgwyr hefyd ddefnyddio technoleg ddigidol i ymchwilio i'r testun i'w astudio ac i feithrin eu dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol ymhellach.<br><br>Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i gyflawni eu hymchwiliad hanesyddol yn ddigidol, fel rhan o'r asesiad ar gyfer yr uned hon. |
| Cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Ymweliad digidol/fideo o fawsolëwm Swltan Süleyman Ysblennydd<br><br>Mae nifer o fideos ar gael ar-lein sy'n dangos y safle hwn. |
| Meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Yn adran 2.4.5 yn benodol ceir cyfle da iawn i bwysleisio'r goddefgarwch a ddangoswyd at grefyddau eraill gan Süleyman. |
| Gweithio ar y cyd | Ceir awgrymiadau ynghylch cyfleoedd i gydweithio yn yr adrannau canlynol o'r Cynllun Dysgu: 2.4.1, 2.4.3 a 2.4.5 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae astudio Süleyman I a'r Ymerodraeth Otomanaidd yn rhoi sylfaen cyfoethog ar gyfer archwilio cyd-destunau rhyngwladol, oherwydd bod gwneud hynny'n dangos themâu rhyngweithio byd-eang, cyfnewid trawsddiwylliannol, dynameg pŵer a rhyng-gysylltedd cymdeithasau.<br><br>Mae cyfleoedd i ddysgwyr ddeall ehangiad daearyddol yr Ymerodraeth yn rhanbarthau allweddol yn Ewrop, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Mae Opsiwn 2.4 Modern Cynnar – Süleyman I, tua 1520–tua 1566 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio addysg cydberthnasoedd drwy archwilio perthnasoedd yr Otomaniaid o fewn yr Ymerodraeth ac ag eraill. |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Gall profiadau yn y maes hwn helpu dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o'r modd y mae hawliau pobl eraill wedi cael eu diogelu mewn Hanes hyd yn oed pan nad yw wedi digwydd yn gyson ledled y byd. Caiff y thema o Ymerodraeth ei harchwilio drwy ddatblygiad yr Ymerodraeth Otomanaidd a'r effaith a gafodd hyn ar y rhai dan sylw.<br><br>Mae trafodaethau am ryfeloedd crefydd ac atal anghydffurfiaeth yn ystod yr anghydfodau hyn yn helpu dysgwyr i gysylltu digwyddiadau hanesyddol ag egwyddorion hawliau dynol modern fel rhyddid cred, mynegiant, a diogelwch rhag erledigaeth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori llythrennedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Gwrando | Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion. |
| | |
| Darllen | Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad maen nhw'n ei roi o ddigwyddiadau. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| | |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Byddant yn cael cyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i bwnc hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun. |
| | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith. |
| | **Enghraifft** |
| | Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i bwnc er mwyn cyflwyno maes astudiaeth a'i gyflwyno. |
| | |
| Cynhyrchu | Bydd cyfleoedd i ddysgwyr ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol a byddant yn meithrin sgiliau digidol wrth greu asesiadau di-arholiad mewn fformat digidol. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio.<br>• Cwblhau'r asesiad gan ddefnyddio technoleg ddigidol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Creadigrwydd ac Arloesi</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys creadigrwydd ac arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td><ul><li>Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.</li><li>Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o bynciau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn i senarios bywyd go iawn.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td><ul><li>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.</li><li>Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.</li><li>Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.</li><li>Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.</li><li>Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith.</li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys cynllunio a threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |
| | **Enghraifft** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| | |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys effeithiolrwydd personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Geirfa ar gyfer Opsiwn 2.4

### Modern Cynnar: Süleyman I tua 1520–tua 1566

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Brawdladdiad | Lladd brawd er mwyn bod nesaf i gipio'r orsedd |
| Janisariaid | Aelodau o warchodlu'r swltan |
| System Timar | Rhoi tir neu refeniw gan y Swltan i dalu am wasanaeth ffyddlon |

© WJEC CBAC Ltd. 2025